

Agriculture and Rural Affairs Division/Yr Is-adran Amaeth a Materion Gwledig
Room/ Ystafell 1-021,
Cathays Park 2/ Parc Cathays 2
Cardiff/Caerdydd
Wales/Cymru
CF10 3NQ

29 Mai 2014

Annwyl Gary

Ymgynghoriad ar Gôd Ymarfer Amaethyddol Da Cymru: adolygu dogfennau

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mai 2014 ynghylch eich ymgynghoriad ar adolygu dogfennau Côt Ymarfer Amaethyddol Da Cymru. Rydym ni yng Nghyfoeth Naturiol Cymru wedi adolygu'r ddogfen hon ac wedi casglu'r sylwadau isod.

1. Ni fyddai'r ffermwr cyffredin yn deall iaith y ddogfen bresennol. Mae'n rhagdybio y byddai'n deall termau ac ymarferion technegol penodol (er enghraifft Ewtroffigedd, Cynllunio Rheoli Amgylchedd, Cynlluniau Rheoli Tir Cynaliadwy). Byddai o gymorth pe byddai termau cyfarwydd yn cael eu defnyddio (er enghraifft cynlluniau amaeth amgylcheddol) a dylai'r adroddiad fod ar ffurf sy'n dangos yn glir beth y dylai ffermwyr a rheolwyr tir ei wneud. Er enghraifft (1) beth yw'r rheolau a (2) beth yw'r eithriadau (e.e. yn ôl y rhaniad ymarfer cyfreithiol ac ymarfer da ond gyda phwyslais cryfach ar hynny).
2. Dylid newid y cyfeiriadau at y cyrff blaenorol Cyngor Cefn Gwlad Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd / Comisiwn Coedwigaeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r canlynol wedi'u nodi:

Mae tudalennau 14, 59, 63 a 77 yn cyfeirio at Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Mae tudalennau 15, 18, 27, 28, 29, 30, 40, 42, 43, 45, 47,53, 54, 58, 59, 61, 62, 69, 73, 76,77, 79, 80, 83, 84, 85, 86, 89, 90, 92 yn cyfeirio at Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae tudalen 23 yn cyfeirio at Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

3. Gallai fod o gymorth ychwanegu cyd-destun yn y cyflwyniad a chynnwys dyfyniadau gan y Gweinidog ynghylch yr angen i dalu sylw i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon a rheoli adnoddau naturiol a chynhyrchu bwyd fel system gyfun.

Un agwedd o ymarfer gorau cyfun fyddai gwella gwydnwch ffermydd a chynhyrchu'n gynaliadwy yn y cyd-destun amgylcheddol ac economaidd. Byddai hynny'n cynnwys pwysleisio rheoli tail a slyri'n well; siediau gwartheg addas at y diben; trefnu gosodiadau buarthau ffermydd yn gadarnach a chael peiriannau modern ar gyfer rheoli tail .

4. Byddai o fudd ychwanegu diagramau a lluniau at y testun er mwyn dangos y pwyntiau allweddol a thorri ar y testun. Rhaid diweddarau'r ffigyrau sy'n cael eu defnyddio yn y ddogfen ar hyn o bryd. Er enghraifft, yn y cyflwyniad, cyfraniadau amaethyddiaeth i ollyngiadau Nwyon Tŷ Gwydr Cymru.
5. Byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at ofynion y Rheoliadau Aseidiadau Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer tir heb ei drin a Thrawsgydymffurfio i gynnwys gwarchod cynefinoedd a hefyd broblemau ansawdd dŵr.
6. Ystyried cynnwys, neu gyfeirio at, y gofynion am Daliadau Uniongyrchol Gwyrddach a allai gynnwys manylion yr hyn y dylid ei wneud ynghylch y cyfrifoldebau newydd o ran porfa barhaol, Ardaloedd Canolbwyntio Ecolegol ac arallgyfeirio cnydau.
7. Er mwyn cynnal gwerth y cynlluniau pridd ac adnoddau a gynhyrchwyd o dan gynlluniau hŷn, ystyried cadw rhywfaint o gyfeiriad at gynlluniau blaenorol Tir Cynnal a Thir Gofal drwy ddiweddarau'r cyfeiriad at gynllun amaeth amgylcheddol Glastir.
8. Byddai'n werthfawr nodi cyfleoedd am ymarfer da yn y cyd-destun ehangach gan gynnwys y pethau syml y gellid eu gwneud nid yn unig i helpu i wella neu gynnal ansawdd dŵr ond hefyd i warchod bywyd gwylt. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys coed mewn gwrychoedd, creu lleiniau byffer ger gwlyptiroedd, cadw lleiniau o laswellt (yn enwedig gydag amrywiaeth o berlysiâu) agosaf at wrychoedd, cadw darnau bychan o borfa wedi'i lled wella, a gellid cyfeirio hefyd at werth cynefinoedd o'r fath i beillwyr.
9. Ystyried darparu crynodeb o'r wybodaeth ynghylch y ddeddfwriaeth allweddol y cyfeirir ati yn yr adroddiad mewn atodiad er mwyn lleihau'r testun.

Yn gywir



Isobel Moore
Pennaeth Busnes, Rheoleiddio ac Economeg